4 Tachwedd 2021

Annwyl Bennaeth y Ganolfan

**Haf 2022 - cyhoeddi canllawiau i'r trefniadau wrth gefn**

Rydym yn ymwybodol eich bod chi a'ch cydweithwyr yn brysur yn delio ag aflonyddwch parhaus oherwydd y pandemig ac yn dibynnu ar lefel yr aflonyddwch a brofir, mae hyn yn heriol iawn i chi a'ch dysgwyr.

Fel yr esboniodd ein llythyr at ganolfannau ar 19 Hydref 2021,y bwriad yw y bydd dysgwyr yn cael eu hasesu yn ystod haf 2022 drwy arholiadau a, lle y bo'n berthnasol, asesiadau di-arholiad yn y cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a addaswyd. Gwnaethom hefyd amlinellu ein cynlluniau i gyhoeddi canllawiau cychwynnol ar y trefniadau wrth gefn ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, a fydd yn cael eu defnyddio os gwneir penderfyniad i ganslo cyfres arholiadau 2022. Cyhoeddwyd y canllawiau hyn heddiw.

Diben ein canllawiau yw tynnu sylw at rai pwyntiau allweddol ar gyfer canolfannau ar hyn o bryd, fel bod gennych rywfaint o dystiolaeth o gyrhaeddiad y gellir ei ddefnyddio pe bai arholiadau'n cael eu canslo. Os caiff arholiadau eu canslo, yna bydd canllawiau manylach ar wneud penderfyniadau graddio a gweithdrefnau sicrhau ansawdd ar gael.

**Qualifications Wales**
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

**Cymwysterau Cymru**
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Bydd CBAC yn cyhoeddi Fframweithiau Asesu Cymwysterau wedi'u diweddaru ar gyfer pob pwnc. Bydd y rhain ar gael ar eu gwefan ddiogel ddydd Gwener 5 Tachwedd 2021, ynghyd â chanllawiau a gwybodaeth asesu ategol eraill.

**Paratoi ar gyfer cyfres arholiadau gaeaf 2021/22**

Fel y nodwyd gennym yn ein llythyr diwethaf, rydym wedi diweddaru'r cynllun wrth gefn ar y cyd sy'n rhoi arweiniad i ysgolion a cholegau ar beth i'w wneud os amharir yn ddifrifol ar arholiadau. Dylech ymgyfarwyddo â'r ddogfen fel eich bod yn ymwybodol am gyfres arholiadau'r gaeaf sydd i ddod.

Yn gywir

Philip Blaker

Prif Weithredwr